OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 713 (Cy.74)

BWYD, CYMRU

CYFANSODDIAD A LABELU

Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*11 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*12 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1)(e) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2008.

Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004

2. Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004(**4**) fel a ddarperir yn rheoliadau 3 a 4.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 ac Atodlen 11, paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) OJ Rhif . L31, 1.2.2002, t.1.
(**3**) OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.
(**4**) O.S. 2004/1396 (Cy.141).